Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Elin Jones AS

Y Llywydd

Senedd Cymru

Dyddiad: 14 Medi 2020

**Pwnc: Adroddiad ar effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol**

Dyma amgáu adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a’r cyfryngau lleol.

Yn ystod yr ymchwiliad clywsom feirniadaeth o'r diffyg sylw ar ran darparwyr newyddion y DU i faterion datganoledig. Cafwyd enghreifftiau o wybodaeth anghywir a dryswch ynghylch pa lywodraeth oedd â’r cyfrifoldeb dros weithgareddau lliniaru COVID-19. Ar wahân i'r pryderon iechyd cyhoeddus y mae hynny’n eu codi’n syth, roedd y rheini a gyfrannodd i’r ymchwiliad eisiau rhoi sylw i fater mwy eang hefyd o ran gwneud yn siŵr bod pobl Cymru’n meddu ar yr wybodaeth lawn ynghylch materion sydd wedi’u datganoli.

Gwnaethant dynnu sylw’n benodol at yr angen i addysgu pobl ifanc am ddatganoli a beth yw rôl Senedd Cymru yn wyneb y ffaith y bydd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn cael bwrw pleidlais yn etholiadau’r Senedd o hyn ymlaen.  Mae'r aelodau wedi gofyn a oes unrhyw gynlluniau ar y gweill ar gyfer ymgyrch addysgu neu gyfathrebu ar gyfer pobl ifanc, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyn yr etholiad.

Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth y gallwch ei chynnig i ni.

Yn gywir,



Helen Mary Jones

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Elin Jones AS, Llywydd
Senedd Cymru
Elin Jones MS, Presiding Officer
Welsh Parliament

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru

Ein cyf: PO982/EJ/RT

8 Hydref 2020

Annwyl Helen,

**Adroddiad ar effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol**

Diolch am amgáu adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar y pwnc pwysig hwn.

Trwy gydol y gwaith o ddatblygu Deddf y Senedd ac Etholiadau, mae rhanddeiliaid wedi pwysleisio pa mor bwysig yw blaenoriaethu codi ymwybyddiaeth ac addysg ochr yn ochr â'r newidiadau i ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 oed, ac rwyf wedi sicrhau bod hyn yn rhan greiddiol o'r rhaglen ddiwygio, ac yn flaenoriaeth i'r Comisiwn.

Er mai Llywodraeth Cymru sy'n bennaf cyfrifol am addysg a chodi ymwybyddiaeth, mae'r Comisiwn wedi gweithio gyda nhw a sefydliadau eraill i helpu pobl iau i fynd i mewn i etholiad y flwyddyn nesaf gyda chymaint o wybodaeth â phosibl.

I'r perwyl hwnnw, mae'r Comisiwn wedi datblygu ymgyrch gyfathrebu ar gyfer y cyfnod yn arwain at yr etholiad, gan ddyrannu cyllideb o £150,000 ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn gysylltiedig â phleidleisiau i bobl 16 oed.

Gan weithio gydag Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru, pobl ifanc eraill ac addysgwyr, rydym wedi datblygu ystod o ddeunyddiau – gan gynnwys ffilmiau byr – ar gyfer yr ystafell ddosbarth a grwpiau ieuenctid. Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, mae'r rhain hefyd wedi cael eu haddasu ar gyfer eu defnyddio gartref. Rydym yn datblygu cynlluniau ar gyfer digwyddiadau (rhithwir) yn ymwneud ag wythnos ddemocratiaeth ym mis Chwefror, ac rydym wedi gofyn am adborth gan athrawon ynglŷn â beth sy'n gweithio orau yn rhithwir.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

Ar gyfer yr ymgyrch etholiadol ehangach, mae staff yn datblygu deunyddiau a chynlluniau i sicrhau bod ein prif neges am yr etholiad – sef mai pleidleisio yn Senedd 21 yw'r ffordd i chi gael dweud eich dweud a chael eich clywed yn eich Senedd – yn cyrraedd pob rhan o Gymru. Canolbwyntir ar y rhai sydd newydd gael yr etholfraint o dan Ddeddf Senedd ac Etholiadau Cymru, ond byddwn hefyd yn mynd i'r afael â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn draddodiadol.

Bydd yr ymgyrch yn cynnwys:

- Ymgysylltu wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl, wedi'i ategu gan sesiynau ymgysylltu rhithwir ac adnoddau ar-lein;
- Ymgyrchoedd digidol ar draws holl sianeli'r Senedd gyda chynnwys a brandio gwreiddiol newydd, defnydd posibl o sianeli newydd a defnyddio dylanwadwyr ac ymgyrchwyr lleol;
- Ymgyrch gref yn y cyfryngau yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a phartneriaethau cydweithredol gyda rhanddeiliaid yn y cyfryngau;
- Pecyn o wybodaeth gyhoeddus ac adnoddau addysgol, sy'n cynnwys gweithgareddau ategol, ar gyfer pob cynulleidfa;
- Cynnwys hyrwyddo y telir amdano wedi'i dargedu ledled Cymru ac ar lwyfannau digidol ar gyfer cynulleidfaoedd penodol.

Mae effeithiolrwydd yr ymgyrch yn bwysig, a bwriad ehangder y gwaith ymgysylltu sydd wedi'i gynllunio yw cyrraedd ystod eang o bobl iau mewn amryw o wahanol ffyrdd. Bwriad hyn yw mynd i'r afael â rhai o'r union bryderon a nodwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â chyrraedd pobl Cymru.

Yn gywir,

Elin Jones

**Elin Jones AS**
Y Llywydd